



Ein cyf/Our ref: MA-L/RE/0144/17

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

10 Mawrth 2017

Annwyl Huw,

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

Diolch i'ch Pwyllgor unwaith eto am ystyried Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) yn ystod Cyfnod 1. Yn ystod y ddatl am egwyddorion cyffredinol y Bil ar 28 Chwefror, rhoddais gadarnhad y byddwn yn ysgrifennu at y Pwyllgor i ymateb yn ffurfiol i'w adroddiad.

Er fy mod yn sylweddoli beth yw bwriad unig argymhelliad adroddiad y Pwyllgor, ni allaf ymateb drwy ddiwygio'r Bil yn y ffordd benodol y mae'r Pwyllgor yn ei argymhell. Mae awdurdodau lleol eisoes yn gorfod cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac maent yn gyfarwydd iawn â hwy. Maent felly'n deall eu dyletswyddau'n dda. Gyda hyn mewn golwg, credaf y byddai'n ddiangen ac yn amhriodol ychwanegu darpariaeth benodol ar wyneb y Bil, ac y gallai hyn arwain yn anfwriadol at ddryswch pe bai darpariaeth o'r fath yn cael ei chynnwys yn y Bil hwn heb ei chynnwys mewn deddfwriaeth arall.

Serch hynny, gan ymateb i gais blaenorol gan y Pwyllgor ynghylch Rhan 2 o'r Bil, rwy'n bwriadu cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i ddatgan ar wyneb y Bil mai dim ond awdurdodau cyhoeddus penodol fydd yr awdurdodau gorfodi. Bydd hyn hefyd yn sicrhau mai dim ond y rheini sydd eisoes yn gorfod gweithredu'n unol â'u rhwymedigaethau o dan deddfwriaeth hawliau dynol fydd yr awdurdodau gorfodi. Gobeithio y bydd hyn yn tawelu meddwl y Pwyllgor yn gyffredinol ynghylch y mater hwn.

Hyderaf y bydd y Pwyllgor yn fodlon inni ddilyn y trywydd hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon.

Dymuniadau gorau,

Rebecca Evans AC / AM
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.